# TACHWEDD 2015

YSBRYDOLI MERCHED SyM

**NEGES y CADEIRYDD**

**Annwyl Gyd-aelodau,**

Dyma fy neges olaf i chwi gan fod fy amser fel cadeirydd wedi dod i ben yn y Cyfarfod Blynyddol y mis diwethaf. Hefyd mis diwethaf cafwyd sefydliad newydd o fewn y sir, felly hoffwn groesawu Sefydliad Llanelwy i'r Ffederasiwn. Amseru da iawn ym mlwyddyn y Canmlwyddiant.

'Rwyf wedi mwynhau fy amser fel cadeirydd yn fawr iawn, ac rwyn dymuno'n dda i'r cadeirydd newydd. Gwn y caiff Eirian yr un gefnogaeth a chyfeillgarwch a dderbyniais i. Mae wedi bod yn bleser ac yn fraint i'ch cynrychioli mewn myrdd o ddigwyddiadau. Diolch arbennig i aelodau'r Bwrdd am eu hanogaeth a'r cyd-weithio hapus fu rhyngom. Diolch hefyd i Ann, ein hysgrifenyddes weithgar, i'r is-bwyllgorau ac i'r cynghorwyr. Mae gennyf atgofion hapus iawn o'r tair blynedd ddiwethaf gyda digon o luniau a memorabilia.

Rydym i gyd yn aelodau o deulu mawr S.Y.M.

Diolch yn fawr.

**Cofion gorau, Caroline**

---

Nodyn gan y Golygydd. **Rwyn siwr fod pawb o Ffederasiwn Clwyd Dinbych yn ymuno â mi i ddymuno'n dda i Caroline – fe wnaeth waith ardderchog yn enwedig ei diolchiadau i Janice Langley yn Neuadd Albert. 'Roeddem yn llawn balchder ohoni.**

---

Annwyl Gyd Aelodau

Fy enw yw Eirian Roberts a fi yw eich Cadeirydd newydd. I'r rhai sydd ddim yn fy adnabod rwy'n ffermio gyda fy ngŵr Arwel a'n ŵyr Gruff yn Ysbyty Ifan. 'Rwyf wedi bod yn aelod o Sefydliad Ysbyty Ifan ers 1964 ac wedi dal pob swydd yno bron. Mae Ysbyty Ifan wedi'i galw yn un o bentrefi mwyaf hynafol Gogledd Cymru. Sefydliad bychan ydyn ni ond rydym yn cael llawer o hwyl. Cawn gyfle i gyfarfod â ffrindiau a dysgu pethau newydd. Ein hoff beth yw mynd allan i rywle a chael pryd o fwyd wedyn!

Mae'n bleser gennyf ddiolch i Caroline am ei gwaith dros y dair mlynedd ddiwethaf. Cafodd lawer o brysurdeb o flaen ac yn ystod blwyddyn y canmlwyddiant. Bydd yn anodd ei dilyn. Diolch hefyd i aelodau'r Bwrdd, ac edrychaf ymlaen i'ch cyfarfod a chyd-weithio gyda chwi i gyd.

Eirian

---

Nodyn gan y Golygydd. **Llongyfarchiadau Eirian. Gobeithio y cei amser hapus fel cadeirydd a phob lwc!**

---

Ymunwch â ni am





**DIOLCHGARWCH y CANMLWYDDIANT**



Nos Fercher, 25 Tachwedd 2015 am 6.30pm
yng nghapel Tabernacl, Stryd y Ffynnon, Rhuthun.
LL15 1AF



Gwneir casgliad



## TŶ SEFYDLIAD Y MERCHED

Yn anffodus bu lladrad yn Nhŷ SYM Nos Lun, Hydref 5ed 2015. Torrwyd ffenestr i fynd i mewn. Dygwyd peth arian a laptop, camera a cês, y sganer a'r projector – rhain i gyd mewn cwpwrdd wedi'i gloi yn y swyddfa oedd dan glo hefyd. Mae'r heddlu yn delio gyda'r digwyddiad.

Mae'r ffenest wedi cael ei thrwsio a'r coed o flaen y tŷ wedi'i torri i lawr i gael mwy o olwg o'r ffordd. Mae'r heddlu yn rhoi cyngor ar fwy o fesurau diogelwch y gallwn roi.

Diolch am yswiriant ar adegau fel hyn, a diolch i Ann, Enid a Lynn am glirio'r llanast a cael trefn yn ôl i'r tŷ.

---

## MAE LLYFRGELL Y FFEDERASIWN AR AGOR

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi gwneud casgliad o batrymau crefft, llyfrau, cerddoriaeth a dramau, llyfrau coginio a llyfrau ar hanes S.Y.M. Maent i gyd ar gael yn Nhŷ SYM i'w darllen neu i'w benthyg. Rhowch eich enw, sefydliad ac enw'r llyfr, a'i ddychwelyd pan fyddwch wedi'i orffen.

---

## NFWI CRAFT COMMITTEE

## 'ShoWIng Off' Staging & Interpretation Workshops

**The closest is to be held at Cheshire Federation, 11 White Friars, Chester, CH1 1NZ on 8 February 2016**

Aimed at all level of skill, these fun and informative workshops will demonstrate how to create a balanced and structured presentation to maximise attraction value. Members will also learn how to display visuals whilst delivering a talk or workshop.

The workshops will start at 10am and finish by 3.30pm. Cost to attend is £20 per person which includes a light lunch and refreshments. Places will be limited and it is highly advised that members book as soon as possible to secure their place. Dates and venues, plus an application form are available to download from the Craft Area and General Information area on the WI Moodle. Completed applications, together with the attendance fee should be sent to Elaine Smith, Secretary, NFWI Unit, Denman College, Marcham, Abingdon, Oxon, OX13 6NW along with your payment. Cheques should be made payable to NFWI.

## 'Something Old, Something New'
## Your Jumper Needs You!

This new upcycling competition for 2016 is about being creative and having fun! It is a great way to use existing materials without having the expense of purchasing new materials to create something new.

Closing date for entries is 21 March 2016 and final pieces should be sent to the NFWI Unit by 1 June 2016. Winners will be notified by the end of July 2016. All entries should be original and the member's own work. A full schedule and application form is available to download from the Craft area on the WI Moodle.

---

## NEGES BERSONNOL GAN JANICE LANGLEY – CADEIRYDD NFWI

Mae'r gefnogaeth a gawsom fel teulu yn anhygoel – rhy niferus i ddiolch i bawb yn bersonol. Buasai David fy ngŵr yn gwaredu at yr holl lythyrau cydymdeimlad. Diolch o galon.

---

## CLWB 500 MIS HYDREF

I'w dynnu yng Nghyfarfod y Cyngor yn Llangollen ar Hydref 21, 2015.

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD | LLEOLIAD | AMSER |
|---|---|---|---|
| 15/03/16 | Ymweliad Denman | Cae Cymro, Clawddnewydd | 1pm |
| 1-3/04/16 | Cyfarfod y Gwanwyn | Coleg Denman, Marcham, Oxon | |
| 20-21/4/16 | Cyfarfod Cynhadledd Cymru | Llandrindod | |
| 10-12/6/16 | Cyfarfod Blynyddol | Brighton | |

Yn amgaëdig: Ffurflen clwb 500; Ffurflen Cynhadledd Cymru; Ffurflen 'AM Observers' 2016; Ffurflen cyllid am 2016.

---

**FFEDERASIWN MERCHED CLWYD-DINBYCH – RHIF ELUSEN 227599**

**YSGRIFENNYDD Y FFEDERASIWN - ANN EDWARDS, TŶ SYM, 67 STRYD Y DYFFRYN, DINBYCH. LL16 3AP. FFÔN – 01745 812985 e-bost – a.edwards@cdfwi.co.uk ORIAU SWYDDFA - LLUN a MAWRTH 10·00yb – 3·00, Neu cysylltwch a Eirwen Kenrick ar 01492 650529 e-bost - eirwenkenrick@hotmail.co.uk**